



CYFARFOD PWYLLGOR GWEITHREDOL Y GANGEN

Dyddiad: Dydd Mercher 27 Tachwedd 2024
Amser: 12:30 – 13:15
Lleoliad: Ystafell Fideogynadledda

Yn bresennol

Rhun ap Iorwerth AS, Cadeirydd
Llywydd, Elin Jones AS (Llywydd)
David Rees AS (Dirprwy Lywydd)
Alun Davies AS
Natasha Asghar AS
Delyth Jewell AS

Ysgrifenyddiaeth

Al Davies, Ysgrifennydd Dros Dro'r Gangen
Elin Sutton, Swyddfa Breifat y Llywydd

AGENDA

- YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**
Rhianon Passmore AS
- COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF – Papur CPA 6S-24-02 (DOGFEN 1)**

Cytunwyd bod y cofnodion yn gywir.

3. **MATERION YN CODI O'R COFNODION**

Yn dilyn trafodaeth ynghylch presenoldeb Lee Waters AS mewn cynhadledd ar ddeallusrwydd artiffisial (AI) a thechnoleg ffugiad dwfn (*deepfake*) yn Singapore, gofynnwyd a oedd unrhyw waith ymchwil hysbys wedi'i wneud ar ddylanwad deallusrwydd artiffisial a chamwybodaeth ar Etholiad Cyffredinol diweddar y DU.

Drafftwyd nodyn briffio byr gan wasanaeth Ymchwil y Senedd mewn ymateb i'r cwestiwn hwn, a rhannwyd y nodyn â'r Aelodau.

4. **Adborth ar gyfarfodydd, ymweliadau, digwyddiadau a chynadleddau diweddar a chamau dilynol**

2024

- *Senedd Ieuencid y Gymanwlad
Wellington, Seland Newydd
2-6 Medi*

Roedd y Gangen yn falch o gael ei chynrychioli yn Senedd Ieuencid y Gymanwlad eleni, a gynhaliwyd gan Senedd Seland Newydd, gan Tegan Skyrme, cyn Aelod o Senedd Ieuencid Cymru. Nododd y Cadeirydd fod y Gangen yn ddiolchgar i Tegan am ei hadroddiad, sydd wedi'i rannu ag Angharad Earles o dîm Senedd Ieuencid Cymru, a aeth gyda Tegan er mwyn rhoi cymorth iddi.

Nodyn: Soniodd y Llywydd am y drafodaeth rhwng y ddirprwyaeth â Senedd Seland Newydd yn Sydney, gan nodi bod y gwaith a wnaed o ran cynnal Senedd Ieuencid y Gymanwlad yn ddiweddar wedi bod yn fater o ddiddordeb. Yn amlwg, roedd hon yn dasg fawr, lle bu Aelodau'n gweithredu fel mentoriaid i'r cynrychiolwyr. Serch hynny, mae'n amlwg fod hwn wedi bod yn brofiad gwerth chweil i Senedd Seland Newydd.

Gofynnodd y Llywydd i'r Aelodau a oeddent yn meddwl y dylai'r Senedd, mewn egwyddor, fynegi diddordeb mewn cynnal Senedd Ieuencid y Gymanwlad yn y dyfodol. Nodwyd mai'r bwriad yw cynnal cyfarfod nesaf Senedd Ieuencid y Gymanwlad yn 2026, sef adeg a allai gyd-daro ag etholiad nesaf y Senedd. Nodwyd y gallai hyn fod yn broblem, ond roedd cefnogaeth gyffredinol ar gyfer gwaith ymchwil pellach ar y mater gan y Gangen.

- *Cyfarfodydd Pwyllgor Llywio Seneddwragedd y Gymanwlad BIMR*
16 Medi / 25 Tachwedd.

16 Medi – Roedd Delyth Jewell AS a Rhianon Passmore AS yn bresennol yn y cyfarfod hwn, lle cafwyd trafodaeth ar drais yn erbyn menywod mewn gwleidyddiaeth. Cyfrannodd Delyth Jewell AS at y drafodaeth honno, gan sôn am bapur a ysgrifennwyd ganddi ar y mater o gam-drin seneddwyr benywaidd drwy gyfrwng y cyfryngau cymdeithasol.

Roedd Sarah Boyack MSP (Aelod o Senedd yr Alban) wedi'i hethol yn Gadeirydd dros dro ar gyfer Seneddwragedd Rhanbarthol y Gymanwlad yn y cyfarfod.

25 Tachwedd – Roedd Natasha Asghar AS yn bresennol yn ystod y rhan o'r cyfarfod hwn lle trafodwyd Cynhadledd Seneddwragedd y Gymanwlad yng Nghynhadledd Seneddol y Gymanwlad yn Sydney yn ddiweddar, yn ogystal â'r paratodau ar gyfer Diwrnod Rhyngwladol y Menywod 2025.

- *Cenhadaeth Sylwedydd Etholiad BIMR*
Montserrat
Hydref

Roedd y Gangen wedi cyflwyno cais parthed y cyfle hwn, ond ni fu'n llwyddiannus y tro hwn. Roedd hon yn genhadaeth arbennig o fach, a chafodd y Senedd ei hannog gan Ysgrifenyddiaeth BIMR i wneud ceisiadau pellach am gyfleoedd yn y maes hwn yn y dyfodol.

Gofynnodd y Llywydd beth oedd y broses i unrhyw senedd ei dilyn o ran gwahodd sylwedyddion i arsylwi un o'i hetholiadau, o gofio na fu unrhyw genhadaeth o'r fath yn arsylwi etholiad yn y Senedd hyd yn hyn.

Camau i'w cymryd: Byddai Ysgrifenyddiaeth y Gangen yn ymchwilio i'r mater ac yn adrodd yn ôl i'r Aelodau.

- *67^{ain} Cynhadledd Seneddol y Gymanwlad,*
Sydney, De Cymru Newydd
3-8 Tachwedd

Nododd y Cadeirydd ei fod ef a'r Llywydd wedi bod yn falch iawn o gael y cyfle i gynrychioli'r Gangen yng Nghynhadledd Seneddol y Gymanwlad eleni, a gafodd ei chynnal gan Senedd De Cymru Newydd yn Sydney. Cafodd y gynhadledd ei threfnu'n dda, ac roedd lefelau presenoldeb yn uchel.

Trafododd y Llywydd a'r Cadeirydd eu profiadau yng Nghynhadledd Seneddol y Gymanwlad, gan gynnwys:

- Anerchiad y Llywydd i Seneddwyr benywaidd y Gymanwlad ynghylch *"Sut i Gadw Menywod yn y Senedd"*
- prif anerchiad y Cadeirydd i Ddadl Amserol y Cynulliad Cyffredinol ynghylch *"Pleidleisiau yn erbyn Hoffiadau – Rôl y Senedd wrth Gryfhau Gwydnwch Democrataidd mewn Oes o Newyddion Ffug a Chyfyngau Synthetig"*

O ran gweithdy'r gynhadledd ynghylch *"Sut y gall deddfwrfeydd Gefnogi a Hyrwyddo Cyfranogiad gan bobl LHDT+ yn y Modd Gorau"*, roedd y lefelau presenoldeb yn dda ac yn llawer mwy parchus na'r hyn a welwyd yng Nghynhadledd Seneddol y Gymanwlad y llynedd yn Ghana.

Mynegodd nifer o ranbarthau Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad ddiddordeb yn y gwaith yr oedd y BIMR yn ei wneud i sefydlu rhwydwaith LHDT.

Nododd y Llywydd ei bod yn falch o fod wedi cael y cyfle i gynnal nifer o gyfarfodydd dwyochrog o fewn ffiniau'r gynhadledd, yn ogystal â'r rhaglen swyddogol. Roedd y rhain wedi cynnwys cyfarfodydd â Llefarydd Senedd De Cymru Newydd; Senedd Daleithiol y Western Cape; Cynulliad Cenedlaethol Quebec; a Senedd Seland Newydd. Roedd dirprwyaeth y Senedd hefyd wedi cymryd rhan yn y sesiynau briffio a'r derbyniad a gynigiwyd gan Gonswliaeth Prydain yn Sydney.

Nododd y Cadeirydd a'r Llywydd pa mor falch y buont yn cyfarfod ag aelodau o *Gymdeithas Cymry Sydney*, ynghyd ag alltudion Cymreig ehangach yn Ne Cymru Newydd, a hynny i ddysgu am eu hanesion a'u bywydau yn Awstralia â'u hysbysu am ddatblygiadau yn y Senedd a datblygiadau eraill yng Nghymru.

Roedd adroddiad ffurfiol ar y gynhadledd yn cael ei ddatblygu, a bydd yn cael ei rannu gyda'r Aelodau maes o law.

5. **BLAENRAGLEN WAITH****Cyfarfodydd, ymweliadau, digwyddiadau a chynadleddau arfaethedig**2024

- *Gweminar BIMR: "Beth yw'r rhwystrau sy'n atal pobl anabl rhag sefyll am swyddi etholedig, a sut y gellir eu goresgyn?"
2 Rhagfyr.*

Roedd manylion y weminar hon, a fyddai'n cael ei Chadeirio gan Jeremy Balfour MSP (Aelod o Senedd yr Alban), Cadeirydd Rhanbarthol Seneddwy'r Gymanwlad, wedi'u rhannu ac roedd y digwyddiad yn agored i bawb. Nododd y Dirprwy Lywydd ei fod yn gobeithio bod yn bresennol, o ystyried bod y pwnc o ddiddordeb i waith [Pwyllgor Senedd y Dyfodol](#), sy'n cael ei gadeirio ganddo.

- *Sesiwn frifio ar-lein gan Stephen Twigg, Ysgrifennydd Cyffredinol Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad |
Adborth ar drafodaethau cynhwysiant LHDT+ yng Nghyfarfod Penaethiaid Llywodraethau'r Gymanwlad (CHOGM) a Chynhadledd Seneddol y Gymanwlad
11 Rhagfyr (12:00-13:00).*

Cafodd y sesiwn frifio ei threfnu mewn ymateb i'r gwaith yr oedd Adam Price AS ac eraill wedi bod yn arwain arno wrth ddatblygu rhwydwaith LHDT+ ar gyfer ein rhanbarth BIM. Yn ogystal â diweddariad yr Ysgrifennydd Cyffredinol o gyfarfod CHOGM a Chynhadledd Seneddol y Gymanwlad, byddai Adam Price AS yn trafod ei brofiadau yng Nghyfarfod Rhwydwaith Cydraddoldeb y Gymanwlad, a gynhaliwyd yn Ne Affrica yn ddiweddar.

2025

- *Gweminar Ranbarthol ar Gwotâu Rhywedd
20 Ionawr.*

Cafodd y weminar hon, y bwriadwyd ei chynnal yn wreiddiol ym mis Hydref, ei haildrefnu ar gyfer y flwyddyn newydd. Byddai rhagor o fanylion yn cael eu rhannu maes o law.

- *Datblygiad Proffesiynol Uwch ac Adeiladu Sgiliau Rhaglen Breswyl Valetta, Malta 23 Chwefror – 1 Mawrth.*

Nododd y Cadeirydd y bydd y gynhadledd sydd ar ddod yn cynnig un o nifer o raglenni datblygiad proffesiynol preswyl y mae Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad wedi bod yn eu darparu yn ystod y misoedd diwethaf. Yn anffodus, ni fyddai'n bosibl i'r Gangen hwyluso presenoldeb Aelod yn ystod y flwyddyn ariannol hon, ond roedd dealltwriaeth y bydd rhaglenni tebyg eraill yn cael eu cynnig yn 2025.

- *73ain Seminar San Steffan 10-14 Mawrth*

Roedd James Evans AS wedi cael ei ddewis i fynd i'r seminar blynyddol hwn. Byddai Clerc y Senedd hefyd yn bresennol yn y digwyddiad.

- *Cynhadledd Seneddwragedd y Gymanwlad BIMR Caeredin, yr Alban 16-19 Mawrth (i'w gadarnhau)*

Er nad yw'r cynllun wedi'i gadarnhau'n ffurfiol eto, roedd disgwyl i Gangen yr Alban gynnal Cynhadledd Ranbarthol nesaf Seneddwragedd y Gymanwlad yng Nghaeredin.

- *Cynhadledd BIMR Caerdydd, Cymru Mehefin*

Nododd yr Aelodau y llythyr a ddosbarthwyd gan y Llywydd a chan Brif Weithredwr a Chlerc y Senedd, yn rhoi caniatâd swyddogol i'r Senedd gynnal Cynhadledd BIMR y flwyddyn nesaf ac i'r adnoddau fod ar gael i hwyluso hyn.

Dyweddodd y Cadeirydd fod hwn yn brofiad cyffrous i edrych ymlaen ato, ac yn gyfle unwaith mewn degawd, gan nodi bod y gwaith paratoi cychwynnol eisoes wedi dechrau.

Byddai cyfarfod o'r Gangen yn cael ei drefnu yn y flwyddyn newydd i drafod y broses o ddatblygu rhaglen y gynhadledd. Yn y cyfamser, anogwyd yr Aelodau i gysylltu ag Ysgrifenyddiaeth y Gangen os oes ganddynt awgrymiadau am unrhyw themâu penodol yr hoffent eu cynnig ar gyfer Cyfarfodydd Llawn a gweithdai posibl.

Er gwaethaf y ffaith ein bod yn cynnal y gynhadledd, eglurodd y Cadeirydd y bydd nifer cyfyngedig o leoedd ar gael ar gyfer cynrychiolwyr yn y sesiynau swyddogol. Fodd bynnag, bydd gwahoddiadau i ddigwyddiadau ehangach y rhaglen yn cael eu hanfon at holl Aelodau gweithredol y Gangen a deiliaid swyddi.

- *68ain Cynhadledd Seneddol y Gymanwlad / etholiadau Seneddwragedd y Gymanwlad Barbados 6-13 Hydref*

Nododd y Cadeirydd fod Cynhadledd Seneddol y Gymanwlad y flwyddyn nesaf bellach wedi'i chadarnhau, gyda Senedd Barbados yn cynnal y digwyddiad.

6. **EITEMAU NEWYDD / UNRHYW FATER ARALL**

Papurau a Nodwyd:

- *Adroddiad ar 10^{fed} Cynhadledd Seneddwragedd y Gymanwlad BIMR (Malta).*
- *Adroddiad BIMR 2024 (St Helena).*

7. **DYDDIADAU CYFARFODYDD YN Y DYFODOL:**

Cyfarfod Pwyllgor Gweithredol y Gangen – Chwefror 2025 (i'w gadarnhau)

Cyfarfod Cyffredinol Blyneddol y Gangen – Dydd Mawrth 10 Rhagfyr (rhithwir)

DIWEDD